



## Ysgol Pentreuchaf

### 132. Polisi Salwch a Damweiniau

#### Nod

Sicrhau bod lles a diogelwch plentyn yn cael ei warchod mewn unrhyw argyfwng. Rhaid o'r herwydd ofalu bod athrawon, staff ategol, plant a rhieni yn gwybod beth yw'r drefn gweithredu mewn argyfwng.

#### Amcanion

1. Sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn gyfarwydd â lleoliad offer Cymorth Cyntaf.
2. Sicrhau bod cyfeiriadau a rhifau ffôn cartref, ffonau symudol, rhif gwaith, teulu agos a.y.y.b. ar gael yn hwylus.
3. Defnyddio ffurflenni (fydd mewn ffeil yn swyddfa) meu'r system SIMS i gael rhif ffôn meddyg teulu pob plentyn. Sicrhau bod rhif ffôn yr ysbyty lleol hefyd ar gael.

#### Canllawiau

1. Rhaid sicrhau bod rhieni pob plentyn yn llenwi ffurflen yr ysgol a'r ffurflen SIMS gyda'r manylion angenrheidiol.
2. Sicrhau fod pob rhiant yn dychwelyd y ffurflenni blynyddol a gânt i gofnodi rhifau ffôn cartref, ffôn symudol, rhif gwaith, nain a.y.y.b., eu bod yn cael eu beindio a'u bod ar gael yn hwylus yn yr ystafell athrawon a swyddfa'r pennaeth.
3. Dylid atgoffa'r rhieni bod angen hysbysu'r ysgol yn syth os bydd newidiadau yn y manylion.
4. Rhaid hysbysu'r rhieni bod yn rhaid cael llythyr gan y meddyg cyn rhoi maddion i blentyn yn yr ysgol. Yn arferol, bydd plentyn sydd angen meddyginiaeth gan feddyg yn rhy sâl i fod yn yr ysgol.
5. Os bydd plentyn i gymryd meddigyniaeth rheolaidd dros gyfnod hir (e.e. Ventolin oherwydd Asthma) rhaid i'r rhieni lenwi ac arwyddo'r ffurflenni pwrpasol a rhaid cael Cynllun Meddygol Unigol.
4. Rhaid cofio bod gan yr ysgol hawl i weithredu 'in loco parentis' mewn unrhyw argyfwng os methir a chael caniatad rhieni.

#### Canllawiau Penodol

##### Damweiniau

1. Os yw plentyn angen sylw meddygol brys ac nid oes modd cael gafael ar riant, dylid mynd ag ef i'w feddygfa lleol neu galw ambiwlans.
2. Dylid cofio nad oes meddyg ar gael mewn meddgyfa drwy'r dydd, felly dylid gwirio hyn cyn symud y plentyn o'r ysgol.
3. Dylid sicrhau goruchwyliaeth ddigonol i fynd â'r plentyn oddi ar dir yr ysgol – isafswm o ddau aelod o staff (yn cynnwys o leiaf un â chymhwyster Cymorth Cyntaf os oes modd).
4. Dylai aelod o staff sydd yn yr ysgol barhau i geisio cyswllt â'r rhieni er mwyn egluro'r sefyllfa.
5. Mewn achos o ddamwain, mae angen llenwi'r ffurflen bwrpasol (sy'n cael eu cadw yn yr ystafell athrawon) a'i a'i roi ym mag y plentyn i fynd adra. Mewn achos o ddamwain mwy difrifol, mae angen llenwi'r ffurflen bwrpasol (sy'n cael eu cadw yn y swyddfa) at Swyddog Diogelwch y sir o fewn 24 awr.

#### Afiechyd

1. Gofynnir i rieni adael i'r ysgol wybod am unrhyw afiechyd yn y ffurflen blynyddol a'r ffurflen SIMS.
2. Gofynnir i rieni adael i'r ysgol wybod am unrhyw alergeddau yn y ffurflenni 'Gwybodaeth meddygol' a Caniatâd Bwyd'.
3. Rhaid i rieni lenwi ffurflen bwrpasol i alluogi'r ysgol i roddi meddyginiaeth reolaidd i blentyn (e.e. Ventolin).
4. Rhaid cael llythyr gan y meddyg cyn y gall yr ysgol roddi meddyginiaeth drod dro i blentyn (e.e. antibiotics).

#### Casgliad

Mae'n angenrheidiol cael cydweithrediad y rhieni er mwyn i'r polisi yma fod yn effeithiol. Rhaid hysbysu y staff i gyd ble i gael gwybodaeth ac offer.

#### Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_